| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Y Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Ebrill 9, 2013** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cynghorydd Barbara Smith / Alan Smith** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Tony Ward** |
| **Teitl:** | **Cynllun Corfforaethol 2012-17, Dogfen Gyflenwi Blwyddyn 2** |

---

**1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Dogfen Gyflenwi Blwyddyn 2 Cynllun Corfforaethol 2012-17.

**2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?**

2.1 Mae angen penderfyniad i gymeradwyo fersiwn ddrafft derfynol Dogfen Gyflenwi Blwyddyn 2 y Cynllun Corfforaethol, yn atodol yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

2.2 Crëir Dogfen Gyflenwi ar gyfer pob blwyddyn o'r Cynllun Corfforaethol.

2.3 Ei phwrpas ydi amlinellu rhai o'r prosiectau allweddol a fydd yn dechrau a/neu'n cael eu cyflenwi yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau, gyda'r bwriad o ddangos sut mae'r Cynllun Corfforaethol yn effeithio ar y gwaith rydyn ni'n ei wneud.

2.4 Fe gyhoeddir y ddogfen ar ein gwefan felly mae ar gael ar gyfer ein rheolyddion a'r cyhoedd.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Cymeradwyir, yn amodol ar unrhyw newidiadau a gytunwyd, bod Aelodau'n cymeradwyo'r drafft terfynol er mwyn i'r ddogfen gael ei chyfieithu a'i chyhoeddi.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Pwrpas cynhyrchu a chyhoeddi Dogfen Gyflenwi'r Cynllun Corfforaethol ydi cadarnhau'r gweithgaredd y bydd y cyngor yn ymgymryd ag o yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf i gefnogi cyflenwad ei Gynllun Corfforaethol.

4.2 Mae'r gweithgareddau'n tarddu o Gynlluniau Gwasanaeth a Chynlluniau Rhaglen, ac fe gesglir diweddariadau ar gynnydd drwy systemau Ffynnon a Verto.

4.3 Fe adroddir cynnydd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'r Cabinet drwy ein Hadroddiadau Perfformiad Chwarterol.

4.4 Bydd gwerthusiad cyffredinol o gynnydd y cyngor gyda chyflenwi'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a gyhoeddir bob mis Hydref.

4.5 Mae'r gweithgareddau a amlygir yn Nogfen Gyflenwi Blwyddyn 2 wedi eu dylunio i effeithio'n bositif ar ein Blaenoriaethau Corfforaethol a chanlyniadau cysylltiedig (manteision i'n cymunedau).

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r ddogfen wedi ei dylunio'n benodol i ddangos pa weithgaredd sydd wedi ei gynllunio gan y cyngor ar gyfer 2013-14 i gefnogi cyflenwad ei flaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd o'n ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn cynnwys strategaeth ariannol pum mlynedd sy'n amlinellu'r buddsoddiad cyfalaf a ragwelir ac sy'n ofynnol i gyflenwi'r blaenoriaethau. Fe ddatblygwyd y strategaeth yma'n dilyn gweithdy Aelodau ar Fedi 11eg dan arweiniad y Pennaeth Cyllid ac Asedau.

6.2 Mae Dogfen Gyflenwi Blwyddyn 2 yn cynnwys hefyd adran ar yr oblygiadau ariannol ar gyfer 2013-14.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaethpwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Corfforaethol a'i gyflwyno i'r Cyngor ar Hydref 09, 2012.

7.2 Nid oes Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb penodol yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn ei hun, ond bydd angen i Benaethiaid Gwasanaeth ystyried effaith ar gydraddoldeb y gweithgareddau unigol a grybwyllir yn y ddogfen i sicrhau na fyddan nhw'n cael effaith niweidiol anghymesur ar bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir.

7.3 Bydd rhai o'r gweithgareddau, er enghraifft ffurfioli cynlluniau ar gyfer cyflenwi cyrbau isel, yn cael effaith bositif ar gydraddoldeb positif ac fe'u dyluniwyd i ymateb i Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gwreiddiol y Cynllun Corfforaethol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gafwyd â Chraffu ac eraill?**

8.1 Fe ddatblygwyd y ddogfen o weithgaredd a nodwyd o'r Cynlluniau Gwasanaeth drafft ar gyfer 2013-14 ac o Gynlluniau Rhaglenni.

8.2 Cylchredwyd drafft i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar gyfer sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

**9. Datganid y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae’r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys cynlluniau gwario lefel uchel ar gyfer 2012-17, ac yn gosod cyd-destun y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae’r buddsoddiad a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol yn uchelgeisiol ond yn angenrheidiol os yw’r Cyngor i barhau i wella gwasanaethau allweddol. Mae’r Cyngor yn wynebu blynyddoedd anodd gydag amgylchedd ariannol heriol ac os bydd angen, mae cynlluniau’n ddigon hyblyg i’w newid os bydd y sefyllfa ariannol yn newid.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

10.1 Does yna ddim risgiau penodol yn gysylltiedig â’r adroddiad yma. Swyddogaeth ein Cofrestrau Risgiau Corfforaethol a Gwasanaeth ydi nodi (a rheoli) y digwyddiadau risg potensial a allai arwain at fethiant y cyngor i gyflenwi ei Gynllun Corfforaethol.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae’r Cynllun Corfforaethol yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sy’n cael ei danategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.